


Chi, Coronafeirws a chadw'n ddiogel ar-lein



Darllenwch ein cyngor diogelwch ar-lein arbenigol ynghylch osgoi sgamiau ar-lein sy'n gysylltiedig â Coronafeirws a gweithio'n ddiogel gartref yn ystod yr achosion.



www.getsafeonline.org



Ar hyn o bryd, diogelu ein hunain, ein hanwyliaid, ein ffrindiau a'n cydweithwyr rhag COVID-19 (Coronafeirws) sydd bennaf ym meddyliau pobl yn y DU a ledled y byd. Wedi'r cyfan, mae hon yn sefyllfa ddigynsail sy'n galw am ragofalon digynsail.

Fodd bynnag, mae hefyd yn bwysig sicrhau ein bod yn cadw'n ddiogel yn y byd rhithwir ar adeg pan fo cyfyngiadau ar deithio, cymdeithasu, bywyd swyddfa a phethau eraill rydym yn eu cymryd yn ganiataol fel arfer.

Pam mae diogelwch ar-lein hyd yn oed yn fwy pwysig nag arfer?

Yn ddiethriad, mae argyfwng sy'n effeithio ar nifer mawr o bobl yn arwain at lawer iawn o weithgarwch twyllodrus. Gyda haint Coronafeirws, gallwch ddisgwyl hysbysebion ffug am unrhyw beth o frechiadau i fygydau wyneb, dolenni i newyddion a fideos syfrdanol, apeliadau elusennol ffug, a negeseuon e-bost gwe-rwydo sy'n honni eu bod wedi'u hanfon gan gwmnïau teithio, iawndal ac yswiriant neu drefnwyr digwyddiadau/twrnameintiau. Ar adegau fel hyn, mae twyllwyr yn gwybod y gallem fod yn pryderu neu'n meddwl gormod am bethau eraill i sylwi bod rhywbeth o'i le.

Mae angen i berchenogion busnesau sydd â gweithwyr nad ydynt yn gweithio gartref fel arfer gymryd rhagofalon syml hefyd, yn ychwanegol at y rhai rydym yn eu cymryd mewn gweithleoedd arferol.

Ac os ydym yn defnyddio'r amser ychwanegol sydd gennym i ymlacio, mae mwy o siawns hefyd y byddwn yn llai gwylidwrus ar-lein, p'un a ydym yn defnyddio rhwydweithiau cymdeithasol, yn chwarae gêm, yn chwilio am bartner, yn lawrlwytho neu'n gwneud llawer o'r pethau eraill rydym yn eu cymryd yn ganiataol.

Waeth sut mae Coronafeirws yn effeithio ar eich bywyd ar-lein, darllenwch ein cyngorion er mwyn eich helpu i amddiffyn eich hun, eich teulu, eich arian, eich dyfeisiau a'ch sefydliad. Ac, fel bob amser, gwnewch yn siŵr eich bod yn darllen ein cyngor, sy'n cynnwys cyngor ar gyfrineiriau, taliadau, prynu'n ddiogel a diweddarau eich meddalwedd a'ch apiau.



Sgamiau sy'n gysylltiedig â haint Coronafeirws

#covidonlinesafety

Yn ôl Action Fraud, roedd sgamiau y rhoddwyd gwybod amdanynt a oedd yn ymwneud â haint Coronafeirws wedi costio dros £800,000 i ddioddefwyr yn y DU mewn un mis. Dyma gynghorion ar sut y gallwch eu hosgoi:


- **Byddwch yn wylriadwrus o unrhyw ohebiaeth neu gyswllt gan** asiantiaid teithio, trefnwyr teithiau, cwmnïau awyrennau, cwmnïau mordeithiau, cwmnïau yswiriant neu gwmnïau iawndal honedig sy'n addo trefnu ad-daliadau am deithiau, llety neu docynnau digwyddiadau: mae'n bosibl eu bod yn dwyllodrus. Os oes gennych unrhyw amheuan, ffoniwch y cwmni rydych wedi bod yn delio ag ef, gan ddefnyddio rhif ffôn rydych yn gwybod ei fod yn gywir. Gall y mathau o ohebiaeth a chyswllt dan sylw gynnwys negeseuon e-bost, negeseuon testun, negeseuon ar y cyfryngau cymdeithasol, negeseuon uniongyrchol, hysbysebion ar-lein a galwadau ffôn.
- **Byddwch yn wylriadwrus o hysbysebion** am gynhyrchion fel mygydau wyneb, diheintyddion dwylo, brechiadau, triniaethau a nwyddau sy'n anodd cael gafael arnynt, oherwydd efallai nad yw'r cynhyrchion hyn yn bodoli. Peidiwch byth â thalu drwy drosglwyddiad banc a thalwch gan ddefnyddio cerdyn credyd os yw hynny'n bosibl, gan fod hynny'n rhoi mwy o ddiogelwch i chi.
- Fel bob amser, **peidiwch â chlicio** ar ddolenni anhysbys mewn negeseuon e-bost, negeseuon testun neu negeseuon eraill, nac atodiadau e-bost. Gallai'r rhain gysylltu â gwefannau sy'n dwyn eich cyfrineiriau a manylion cyfrinachol eraill neu'n achosi haint maleiswedd, sy'n gallu arwain at dwyll ariannol neu dwyll hunaniaeth yn y ddau achos. Gallent hefyd gysylltu â chynnwys i oedolion, cynnwys sy'n ceisio ennyn casineb, cynnwys eithafol neu gynnwys arall.



Gweithio gartref

- Gwnewch yn siŵr bod gwasanaethau cydweithio sy'n defnyddio'r cwmwl, fel gwasanaethau rhannu ffeiliau a chynadleda, wedi'u diogelu â **chyfrineiriau cryf a phroses ddilysu dau ffactor (2FA)**.
- **Dewiswch gyfrineiriau cryf** ar gyfer cyfrifon newydd neu fynediad o bell a phennwch reolau ynglŷn â defnyddio cyfrineiriau, er enghraifft, peidio â rhannu cyfrineiriau, defnyddio rheolwr cyfrineiriau a pheidio â defnyddio'r un cyfrinair ar gyfer mwy nag un cyfrif. I gael gwybodaeth am gyfrineiriau cryf, ewch i [getsafeonline.org/online-safety-and-security/password-protocol-and-control](https://www.getsafeonline.org/online-safety-and-security/password-protocol-and-control)
- Meddyliwch a yw hi'n ddiogel a/neu'n synhwyrol i adael i weithwyr ddefnyddio **eu cyfrifiaduron a'u dyfeisiau symudol eu hunain** ('dewch â'ch dyfais eich hun')
- Os bydd angen i weithwyr ddefnyddio rhwydwaith, ffeiliau ac e-bost eich cwmni, sefydlwch **rwydwaith preifat rhithwir (VPN) ar eu cyfer**. Cyn hynny, darllenwch adolygiadau o lefelau diogelwch rhwydweithiau preifat rhithwir. Dylai rhwydweithiau preifat rhithwir sydd eisoes wedi'u sefydlu gael eu patsio'n llawn.
- Rhowch bwyslais ar bwysigrwydd **diogelu dyfeisiau a gaiff eu rhoi i weithwyr gan y cwmni** rhag cael eu colli, eu dwyn neu'u difrodi. Gwnewch yn siŵr bod modd eu cloi hyd yn oed os cânt eu colli neu'u dwyn. Dylai dyfeisiau gael eu cadw'n ddiogel, er enghraifft, i ffwrdd oddi wrth aelodau'r teulu ac unrhyw un sy'n ymweld â'r cartef.
- Dylai gweithwyr sicrhau bod eu **llwybryddion band eang wedi'u diogelu** er mwyn osgoi unrhyw ymyriad diangen, ac os ydynt allan, **dylent osgoi defnyddio poethfannau Wi-Fi** os ydynt yn gwneud unrhyw beth cyfrinachol.
- Os oes angen cynnal sgysiau cyfrinachol ynglŷn â gwaith, gwnewch yn siŵr bod y sgysiau hyn yn cael eu cynnal ymhell oddi wrth unrhyw **seinyddion clyfar** sydd yn y cartref.
- **Daliwch ati â'ch gwiriadau a'ch rheolaethau arferol**, gan gynnwys eich gwiriadau a'ch rheolaethau ar gyfer mynediad diawdurdod at ddata, a allai fod yn fwy tebygol o dan yr amodau presennol. Gall hefyd fod yn ddefnyddiol rhoi gwybod i'ch darparwr yswiriant bod staff yn gweithio gartref.
- **Rhowch wybod i Action Fraud ar unwaith am dwyll go iawn neu ymdrechion i dwyllo** drwy fynd i [actionfraud.police.uk](https://www.actionfraud.police.uk) neu drwy ffonio 0300 123 2040. Os ydych yn yr Alban, ffoniwch Heddlu'r Alban ar 101.
- **Rhowch wybod i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth am unrhyw fynediad diawdurdod at ddata** a all amharu ar hawliau a rhyddid unigolion drwy fynd i www.ico.org.uk

#covidonlinesafety



Get Safe Online

#covidonlinesafety

Get Safe Online yw'r ffynhonnell fwyaf blaenllaw o wybodaeth a chyngor ar ddiogelwch ar-lein yn y DU, i'r cyhoedd a busnesau bach. Mae'n bartneriaeth nid er elw rhwng y sector cyhoeddus a'r sector preifat sydd wedi'i chefnogi gan nifer o adrannau'r llywodraeth, asiantaethau gorfodi'r gyfraith a sefydliadau blaenllaw ym maes diogelwch y rhyngwyd, bancio a manwerthu.

I gael rhagor o wybodaeth a chyngor diduedd arbenigol sy'n hawdd ei ddilyn ar ddiogelu eich hun, eich teulu, eich arian, eich dyfeisiau a'ch gweithlu, ewch i **www.getsafeonline.org**

Os byddwch yn credu eich bod wedi cael eich twyllo ar-lein, rhowch wybod i Action Fraud, sef canolfan genedlaethol y DU ar gyfer rhoi gwybod am dwyll a seiberdroseddu, drwy ffonio **0300 123 20 40** neu drwy fynd i'r wefan **www.actionfraud.police.uk**

Yn yr Alban, gallwch roi gwybod am dwyll i Heddlu'r Alban drwy ffonio 101.



www.getsafeonline.org

OFFICIAL PARTNERS

